

Drafft o Asesiad Anghenion Fferyllol Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i helpu i lunio gwasanaethau fferyllol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion pobl leol.

Daeth Rheoliadau (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) GIG 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac roedd yn gofyn i Fyrddau Iechyd lunio Asesiad Anghenion Fferyllol erbyn 1 Hydref 2021.

O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio ei Asesiad Anghenion Fferyllol cyntaf. Mae'n asesu a ydy gwasanaethau fferyllfeydd /gweinyddu a ddarperir o fewn yr ardal hon yn cwrdd ag anghenion fferyllol y boblogaeth. Mae hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i reoli a gwneud penderfyniadau am ofynion fferyllfeydd neu Feddygon Teulu newydd sy'n dymuno darparu gwasanaeth gweinyddu, adleoli fferyllfeydd presennol a'r ystod o wasanaethau angenrheidiol.

Mae'n rhaid i'r Asesiad Anghenion Fferyllol fynd drwy gyfnod ymgynghori statudol 60 diwrnod fydd yn gweithredu o 1 Mehefin 2021 i 31 Gorffennaf 2021.

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i gwblhau'r Asesiad Anghenion Fferyllol fydd yn cael ei gyhoeddi ar 1 Hydref 2021. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi Asesiad Anghenion Fferyllol bob pum mlynedd neu ynghynt os bydd yr angen yn newid yn sylweddol.

Sut I Ymateb

A fydddech chi cystal â mynegi eich barn ar y drafft o Asesiad Anghenion Fferyllol y Bwrdd Iechyd drwy:

- naill ai ddarllen y drafft llawn o'r Asesiad Anghenion Fferyllol neu'r Ddogfen Grynodol o'r Asesiad Anghenion Fferyllol neu'r fersiwn Darllen Hawdd;
- a chwblhau'r holiadur ymgynghori erbyn 31 Gorffennaf 2021.

AAF Ddrafft: <https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/key-documents/pharmaceutical-needs-assessment-welsh-pdf/>

Ddogfen Grynodol AAF: <https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/key-documents/welsh-pna-summary-document-pdf/>

AAF Darllen Hawdd: <https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/key-documents/pna-easy-read-document-welsh/>

Holiadur AAF: <https://www.smartsurvey.co.uk/s/W63QSB/>



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol
Clinigol
Clinical Futures